

## OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

### 2022 Rhif 1348 (Cy. 271)

## YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU ANIFEILIAID, CYMRU

Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022

Gwnaed	-	-	-	-	15 Rhagfyr 2022
Yn dod i rym	-	-			16 Rhagfyr 2022

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan—

- paragraff 1(1) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(**1**) a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi;
- i'r graddau y maent yn ymwneud â rheoliad 3(8), Erthyglau 48(b) a 144(6) o Reoliad (EU) 2017/625 ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir y gyfraith o ran bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau yngylch iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion(**2**).

I'r graddau y gwneir y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau o dan Erthyglau 48(b) a 144(6) o Reoliad (EU) 2017/625, yn unol ag Erthygl 144(7), cyn gwneud y Rheoliadau hyn mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r cyrff a'r personau hynny y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru eu bod yn cynrychioli'r buddiannau y mae'n debygol y bydd y Rheoliadau hyn yn effeithio'n sylweddol arnynt a'r cyrff a'r personau eraill hynny y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol.

Yn unol â pharagraff 1(8) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad(**3**).

(1) [2018 p. 16](#). Diwygiwyd adran 8 a Rhan 1 o Atodlen 2 gan adran 27 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael 2020 (p. 1)). Diwygiwyd paragraff 21 o Atodlen 7 gan baragraff 53 o Atodlen 5 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael 2020 (p. 1)).

(2) EUR 2017/625, a ddiwygiwyd gan [O.S. 2020/1481, 2021/429, 809, 1096 a 1443, 2022/621](#) ac 846. Gweler y diffiniad o "the appropriate authority" yn Erthygl 3(2A), a fewnosodwyd gan [O.S. 2020/1481](#).

(3) Mae'r cyfeiriadau yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriadau at Senedd Cymru yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru [2006 \(p. 32\)](#).

## RHAN 1

### Cyflwyniad

#### Enwi, cychwyn a chymhwysedd

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 16 Rhagfyr 2022 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

#### Dehongli

2.—(1) Mae i'r geiriau a'r ymadroddion a restrir ym mharagraff (2), fel y'u defnyddir yn y Rheoliadau hyn ac fel y maent yn cyfateb i eiriau ac ymadroddion Saesneg a ddefnyddir yng Nghyfarwyddebau'r UE a addesir gan Ran 5, yr ystyron a roddir ym mharagraff (2).

(2) Y geiriau a'r ymadroddion yw—

ystyr "Cyfarwyddeb 64/432" ("Directive 64/432") yw Cyfarwyddeb y Cyngor [64/432/EEC](#) ar broblemau iechyd anifeiliaid sy'n effeithio ar fasnachu o fewn y Gymuned anifeiliaid buchol ac anifeiliaid o deulu'r mochyn(4) fel yr oedd yn cael effaith yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu;

ystyr "Cyfarwyddeb 88/407" ("Directive 88/407") yw Cyfarwyddeb y Cyngor [88/407/EEC](#) sy'n gosod y gofynion iechyd anifeiliaid sy'n gymwys i fasnachu o fewn y Gymuned semen dwys-rewedig anifeiliaid domestig o'r rhywogaeth fuchol(5), ac i fewnforio'r semen hwnnw, fel yr oedd yn cael effaith yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu;

ystyr "Cyfarwyddeb 89/556" ("Directive 89/556") yw Cyfarwyddeb y Cyngor [89/556/EEC](#) ar amodau iechyd anifeiliaid sy'n llywodraethu masnachu o fewn y Gymuned embryonau anifeiliaid domestig o'r rhywogaeth fuchol(6), a'u mewnfiorio o drydydd gwledydd, fel yr oedd yn cael effaith yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu;

ystyr "Cyfarwyddeb 90/429" ("Directive 90/429") yw Cyfarwyddeb y Cyngor [90/429/EEC](#) sy'n gosod y gofynion iechyd anifeiliaid sy'n gymwys i fasnachu o fewn y Gymuned semen anifeiliaid domestig o rywogaeth teulu'r mochyn(7), ac i fewnforio'r semen hwnnw, fel yr oedd yn cael effaith yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu;

ystyr "Cyfarwyddeb 91/68" ("Directive 91/68") yw Cyfarwyddeb y Cyngor [91/68/EEC](#) ar amodau iechyd anifeiliaid sy'n llywodraethu masnachu o fewn y Gymuned anifeiliaid o deulu'r ddafad ac o deulu'r afr(8) fel yr oedd yn cael effaith yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu;

ystyr "Cyfarwyddeb 92/65" ("Directive 92/65") yw Cyfarwyddeb y Cyngor [92/65/EEC](#) sy'n gosod gofynion iechyd anifeiliaid sy'n llywodraethu masnachu anifeiliaid, semen, ofa ac embryonau nad ydynt yn ddarostyngedig i ofynion iechyd anifeiliaid sydd wedi eu gosod mewn rheolau Cymunedol penodol y cyfeirir atynt yn Atodiad A(1) i Gyfarwyddeb [90/425/EEC](#)(9), a'u mewnfiorio i'r Gymuned, fel yr oedd yn cael effaith yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu;

(4) OJ P 121, 29.7. 1964, t. 1977.

(5) OJ Rhif L 194, 22.7.1988, t. 10.

(6) OJ Rhif L 302, 19.10.1989, t. 1.

(7) OJ Rhif L 224, 18.8.1990, t. 62.

(8) OJ Rhif L 46, 19.2.1991, t. 19.

(9) OJ Rhif L 268, 14.9.1992, t. 54.

ystyr “Cyfarwyddeb 92/118” (“Directive 92/118”) yw Cyfarwyddeb y Cyngor [92/118/EEC](#) sy’n gosod gofynion o ran iechyd anifeiliaid ac iechyd y cyhoedd sy’n llywodraethu masnachu cynhyrchion nad ydynt yn ddarostyngedig i’r gofynion hynny a osodir mewn rheolau Cymunedol penodol y cyfeirir atyt yn Atodiad A (I) i Gyfarwyddeb [89/662/EEC](#) ac, o ran pathogenau, i Gyfarwyddeb [90/425/EEC](#)(**10**), a mewnsforio’r cynhyrchion hynny i’r Gymuned, fel yr oedd yn cael effaith yn union cyn diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu;

ystyr “Cyfarwyddeb 2002/99” (“Directive 2002/99”) yw Cyfarwyddeb y Cyngor [2002/99/EC](#) sy’n gosod y rheolau iechyd anifeiliaid sy’n llywodraethu cynhyrchu, prosesu, dosbarthu a chyflwyno cynhyrchion sy’n dod o anifeiliaid i’w bwyta gan bobl(**11**) fel yr oedd yn cael effaith yn union cyn diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu;

ystyr “Cyfarwyddeb 2004/68” (“Directive 2004/68”) yw Cyfarwyddeb y Cyngor [2004/68/EC](#) sy’n gosod rheolau iechyd anifeiliaid ar gyfer mewnsforio i’r Gymuned a chludo drwyddi anifeiliaid carnol byw penodol(**12**) fel yr oedd yn cael effaith yn union cyn diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu;

ystyr “Cyfarwyddeb 2009/156” (“Directive 2009/156”) yw Cyfarwyddeb y Cyngor [2009/156/EC](#) ar amodau iechyd anifeiliaid sy’n llywodraethu symud equidae(**13**), a’u mewnsforio o drydydd gwledydd, fel yr oedd yn cael effaith yn union cyn diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu;

ystyr “Cyfarwyddeb 2009/158” (“Directive 2009/158”) yw Cyfarwyddeb y Cyngor [2009/158/EC](#) ar amodau iechyd anifeiliaid sy’n llywodraethu masnachu o fewn y Gymuned ddogfednod ac wyau deor(**14**), a’u mewnsforio o drydydd gwledydd, fel yr oedd yn cael effaith yn union cyn diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu;

mae i “deddfiad” yr ystyr a roddir i “enactment” gan adran 20(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018;

ystyr “Rheoliad ([EC](#)) Rhif 178/2002” (“Regulation ([EC](#)) No 178/2002”) yw Rheoliad ([EC](#)) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a’r Cyngor sy’n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**15**);

ystyr “Rheoliad ([EC](#)) Rhif 852/2004” (“Regulation ([EC](#)) No 852/2004”) yw Rheoliad ([EC](#)) Rhif 852/2004 Senedd Ewrop a’r Cyngor ar hylendid bwydydd(**16**);

ystyr “Rheoliad ([EC](#)) Rhif 853/2004” (“Regulation ([EC](#)) No 853/2004”) yw Rheoliad ([EC](#)) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a’r Cyngor sy’n gosod rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy’n dod o anifeiliaid(**17**);

ystyr “Rheoliad ([EC](#)) Rhif 1251/2008” (“Regulation ([EC](#)) No 1251/2008”) yw Rheoliad ([EC](#)) Rhif 1251/2008 sy’n gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor [2006/88/EC](#) o ran amodau a gofynion ardstio ar gyfer rhoi ar y farchnad anifeiliaid dyframaethu a’u cynhyrchion, a’u mewnsforio i’r Gymuned, ac sy’n gosod rhestr o rywogaethau sy’n fectorau(**18**);

ystyr “Rheoliad ([EC](#)) Rhif 1069/2009” (“Regulation ([EC](#)) No 1069/2009”) yw Rheoliad ([EC](#)) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a’r Cyngor sy’n gosod rheolau iechyd yngylch sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy’n deillio o anifeiliaid nas bwriedir i’w bwyta gan bobl(**19**);

---

(**10**) OJ Rhif L 62, 15.3.1993, t. 49.

(**11**) OJ Rhif L 18, 23.1.2003, t. 11.

(**12**) OJ Rhif L 139, 30.4.2004, t. 320.

(**13**) OJ Rhif L 192, 23.7.2010, t. 1.

(**14**) OJ Rhif L 343, 22.12.2009, t. 74.

(**15**) EUR 2002/178, a ddiwygiwyd gan [O.S. 2019/641, 2020/1504](#) a 2022/377.

(**16**) EUR 2004/852, a ddiwygiwyd gan [O.S. 2019/642](#) a [2020/1504](#).

(**17**) EUR 2004/853, a ddiwygiwyd gan [O.S. 2019/640](#) a [1247](#) a [2020/1504](#).

(**18**) EUR 1251/2008, a ddiwygiwyd gan [O.S. 2020/1388](#) a [1463](#), a [2022/835](#).

(**19**) EUR 2009/1069, a ddiwygiwyd gan [O.S. 2019/170](#) a [588](#), [2020/1388](#) a [1463](#).

ystyr “y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol” (“*the Official Controls Regulation*”) yw Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a’r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir y gyfraith o ran bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau yngylch iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion.

## RHAN 2

### Diwygio Rheoliadau’r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011

3.—(1) Mae Rheoliadau’r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011(**20**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1), ar ddechrau’r rhestr o ddiffiniadau mewnosoder—

“ystyr “Rheoliadau’r FAChP (DSD) (Cymru) (Ymadael â’r UE) 2022” (“*the TARP (ALF) (Wales) (EU Exit) Regulations 2022*”) yw Rheoliadau’r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â’r UE) 2022;”.

(3) Yn rheoliad 15(3), yn lle is-baragraff (a) rhodder—

“(a) os yw’r llwyth yn cydymffurfio â gofynion y canlynol, i’r graddau y maent yn berthnasol a phan y’u darllenir gydag unrhyw ddarpariaethau eraill yn y ddeddfwriaeth y cyfeirir ati isod sy’n gymwys mewn perthynas â’r gofynion hynny—

(i) y ddeddfwriaeth a restrir yn rheoliad 4(2) o Reoliadau’r FAChP (DSD) (Cymru) (Ymadael â’r UE) 2022, fel y’i haddesir gan Ran 5 o’r Rheoliadau hynny neu gan y ddeddfwriaeth y cyfeirir ati ym mharagraffau (ii) a (iii);

(ii) deddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru, fel yr awdurdod priodol, o dan y swyddogaethau a restrir yn yr Atodlen i Reoliadau’r FAChP (DSD) (Cymru) (Ymadael â’r UE) 2022, pan fo’n gymwys;

(iii) deddfwriaeth a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, fel yr awdurdod priodol o ran Cymru, o dan y swyddogaethau a restrir yn yr Atodlen i Reoliadau’r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) 2022(**21**), pan fo’n gymwys;”.

(4) Yn rheoliad 18(3), yn lle “yn y ddeddfwriaeth berthnasol a restrir yn Atodlen 1” rhodder “o dan reoliad 15(3)(a)”.

(5) Yn rheoliad 35—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) ar ôl “yr awdurdod gorfodi priodol”, mewnosoder “neu Weinidogion Cymru”;  
(ii) ar ôl “yr awdurdod gorfodi hwnnw”, mewnosoder “neu Weinidogion Cymru”;

(b) ym mharagraff (3)—

(i) ar ôl “yr awdurdod gorfodi priodol”, mewnosoder “neu Weinidogion Cymru”;

(20) O.S. 2011/2379 (Cy. 252), a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/1216 (Cy. 249), 2019/463 (Cy. 111, 2020/44 (Cy. 5)), 177 (Cy. 38) a 1612 (Cy. 337) a 2021/847 (Cy. 197), 1094 (Cy. 260) a 1480 (Cy. 382).

(21) O.S. 2022/1322. Gweler y diffiniad o “the appropriate authority” yn rheoliad 4(2).

- (ii) ar ôl “yr awdurdod gorfodi hwnnw”, mewnosoder “neu Weinidogion Cymru, fel y bo'n briodol”;
- (c) ym mharagraffau (4), (5) a (6), ar ôl “awdurdod gorfodi”, ym mhob lle y mae'n digwydd, mewnosoder “neu Weinidogion Cymru”.
- (6) Yn rheoliad 38, yn lle “awdurdod gorfodi” rhodder “Weinidogion Cymru neu'r awdurdod gorfodi”.
- (7) Hepgorer Atodlen 1.
- (8) Yn Atodlen 3, ym mharagraff 8—
- (a) yn y pennawd ac yn is-baragraff (1), yn lle “di-asgwrn-cefn” rhodder “perthnasol”;
  - (b) ar ôl is-baragraff (1) mewnosoder—
    - “(1A) Yn y paragraff hwn, ystyr “anifeiliaid perthnasol” yw—
      - (a) anifeiliaid a restrir yn Atodlen 2 i Ddeddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol) 1986(22); a
      - (b) anifeiliaid di-asgwrn-cefn.”;
  - (c) yn lle is-baragraff (2) rhodder—
    - “(2) Nid yw is-baragraff (1) yn gymwys i bysgod rhesog, molysgiaid dyfrol sy'n perthyn i'r ffylwm *Mollusca* na chramenogion dyfrol sy'n perthyn i'r is-ffylwm *Crustacea*. ”;
  - (d) ar ôl is-baragraff (2) mewnosoder—
    - “(3) Nid yw'r cyfeiriad at weithgareddau addysgol yn is-baragraff (1) yn gymwys mewn perthynas ag—
      - (a) anifeiliaid asgwrn cefn; na
      - (b) mêl-wenyn (*Apis mellifera*) na chacwn (*Bombus spp.*). ”

### RHAN 3

Y gofynion o ran iechyd anifeiliaid ac iechyd y cyhoedd

#### Rhestr o'r gofynion o ran iechyd anifeiliaid ac iechyd y cyhoedd

- 4.—(1) Mae paragraff (2) yn rhestru deddfwriaeth at ddibenion rheoliadau 15(3)(a) a 18(3) o Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011.
- (2) Y ddeddfwriaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (1) yw—
- (a) o ran darpariaethau Cyfarwyddebau'r UE, y darpariaethau a ganlyn, fel y'u darllenir gydag Erthyglau 1 a 2 o'r Gyfarwyddeb o dan sylw—
    - (i) Erthygl 14 o Gyfarwyddeb 64/432, ac Atodiadau A i E iddi;
    - (ii) Erthyglau 8 i 11 o Gyfarwyddeb 88/407, ac Atodiadau A i C iddi;
    - (iii) Erthyglau 7 i 10 o Gyfarwyddeb 89/556, ac Atodiadau A a B iddi;
    - (iv) Erthyglau 7 i 12 o Gyfarwyddeb 90/429, ac Atodiadau A i C iddi;
    - (v) Erthygl 6 o Gyfarwyddeb 91/68, ac Atodiadau A i D iddi;
    - (vi) Erthyglau 3 i 11, 13, 16 i 18, a 24 o Gyfarwyddeb 92/65, ac Atodiadau A i D ac F iddi;
    - (vii) Erthyglau 3 i 6, 9 a 10, a 13 o Gyfarwyddeb 92/118, ac Atodiadau 1 ac 1A iddi;

- (viii) Erthyglau 3, 4, 7 a 9 o Gyfarwyddeb 2002/99, ac Atodiadau 1 a 3 iddi;
- (ix) Erthyglau 3, 7 ac 11 o Gyfarwyddeb 2004/68, ac Atodiadau 1 i 3 iddi;
- (x) Erthyglau 4, 5, 11 i 14, 16 a 17 o Gyfarwyddeb 2009/156, ac Atodiadau 1 a 4 iddi;
- (xi) Erthyglau 5, 6, 8 i 12, 14 i 19, 22 i 26, a 30 o Gyfarwyddeb 2009/158, ac Atodiadau 1 i 3 iddi;
- (b) o ran offerynnau eraill—
  - (i) Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid Dyfrol (Cymru a Lloegr) 2009(23);
  - (ii) Rheoliad (EC) Rhif 178/2002;
  - (iii) Rheoliad (EC) Rhif 852/2004;
  - (iv) Rheoliad (EC) Rhif 853/2004;
  - (v) Rheoliad (EC) Rhif 183/2005 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod gofynion o ran hyllendid bwyd anifeiliaid(24);
  - (vi) Penderfyniad y Comisiwn 2007/275 ynghylch rhestrau o gynhyrchion cyfansawdd sydd i fod yn ddarostyngedig i reolaethau mewn safleoedd rheoli ar y ffin(25);
  - (vii) Rheoliad (EC) Rhif 1251/2008;
  - (viii) Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009;
  - (ix) Rheoliad (EU) 2016/1012 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar amodau sootechnegol ac achyddol ar gyfer bridio a masnachu anifeiliaid bridio o frid pur, moch bridio hybrid a'u cynhyrchion cenhedlol, a dod â hwy i'r Undeb(26);
  - (x) y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol.

## RHAN 4

### Swyddogaethau deddfwriaethol a swyddogaethau eraill

#### Darpariaethau sy'n cynnwys swyddogaethau deddfwriaethol a swyddogaethau eraill

5.—(1) Mae'r Atodlen yn cynnwys rhestr o ddarpariaethau Cyfarwyddebau'r UE sy'n rhoi swyddogaethau i'r awdurdod priodol, ynghyd ag unrhyw ddarpariaethau sydd i'w dargadw oherwydd eu bod naill ai i'w darllen gyda darpariaeth a restrir ac yn berthnasol i arfer y swyddogaeth honno, neu'n gysylltiedig â diben y swyddogaeth honno, at ddibenion paragraffau (2) a (3) o'r rheoliad hwn.

(2) Mae'r swyddogaethau a roddir gan y darpariaethau a restrir yn yr Atodlen, ynghyd ag unrhyw ddarpariaethau eraill a restrir yn yr Atodlen a allai fod yn berthnasol i arfer swyddogaeth a restrir, neu'n gysylltiedig â'i harfer, fel y'u haddesir gan Ran 5 o'r Rheoliadau hyn ac i'r graddau y maent yn ymweud â llwythi y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddynt—

- (a) yn arferadwy o ran Cymru gan Weinidogion Cymru i'r graddau y mae'r swyddogaethau o fewn cymhwysedd datganoledig;
- (b) yn arferadwy fel pe bai'r darpariaethau hynny yn ffurfio rhan o gyfraith Cymru a Lloegr; ac
- (c) i'w trin fel swyddogaeth a roddir gan y Rheoliadau hyn.

(23) O.S. 2009/463, a ddiwygiwyd gan O.S. 2011/981 a 1043, 2019/1488, 2020/1388 a 2022/835.

(24) EUR 2005/183, a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/654 a 2020/1504.

(25) EUD 2007/275, a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/1462.

(26) EUR 2016/1012, a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/117 a 588, a 2020/1388.

(3) Mae swyddogaeth o fewn cymhwysedd datganoledig at ddibenion paragraff (2)(a) pe bai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru i roi swyddogaeth o'r fath mewn Deddf gan Senedd Cymru (a thybio, yn achos darpariaeth na ellid ond ei gwneud gyda chydsyniad un o Weinidogion y Goron o fewn yr ystyr a roddir i "Minister of the Crown" yn Nedd F Gweinidogion y Goron 1975(27), y rhoddwyd y cydsyniad hwnnw).

### **Y weithdrefn ar gyfer gwneud rheoliadau**

6.—(1) Mae rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan unrhyw un neu ragor o'r swyddogaethau a restrir yn yr Atodlen i'w gwneud drwy offeryn statudol.

(2) Mae offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan unrhyw un neu ragor o'r swyddogaethau a restrir yn yr Atodlen yn ddarostyngedig i'w ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan Senedd Cymru.

(3) Caiff rheoliadau a wneir o dan unrhyw un neu ragor o'r swyddogaethau a restrir yn yr Atodlen—

- (a) cynnwys darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth ddeilliadol, darpariaeth atodol, darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed, gan gynnwys darpariaeth sy'n diwygio, yn diddymu neu'n dirymu unrhyw ddeddfiad;
- (b) gwneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol.

(4) Cyn gwneud unrhyw reoliadau o dan unrhyw un neu ragor o'r swyddogaethau a restrir yn yr Atodlen, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag—

- (a) y cyrff neu'r personau hynny y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru eu bod yn cynrychioli buddiannau y mae'n debygol y bydd y rheoliadau'n effeithio'n sylweddol arnynt;
- (b) y cyrff neu'r personau eraill hynny y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol.

## RHAN 5

### Addasiadau i Gyfarwyddebau'r UE

#### **Addasiadau i Gyfarwyddebau'r UE**

7. Mae rheoliadau 9 i 19 yn nodi addasiadau i Gyfarwyddebau'r UE a restrir yn rheoliad 4(2)(a) ac yn yr Atodlen, gan gynnwys addasiadau i benawdau a theitlau rhaniadau'r Cyfarwyddebau UE hynny pan fo hynny'n briodol, at ddibenion—

- (a) rheoliadau 15(3)(a) a 18(3) o Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011, a
- (b) rheoliad 5 o'r Rheoliadau hyn.

#### **Dehongli pellach**

8.—(1) At ddibenion y Rheoliadau hyn, mae i'r geiriau a'r ymadroddion a restrir ym mharagraff (2), fel y'u defnyddir yn y Rhan hon ac yng Nghyfarwyddebau'r UE a addesir gan y Rhan hon, yr ystyron a roddir ym mharagraff (2).

- (2) Y geiriau a'r ymadroddion yw—

mae i “yr awdurdod cymwys” yr ystyr a roddir i “the competent authority” yn Erthygl 3 o’r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol;

ystyr “Directive 2001/89” yw Cyfarwyddeb y Cyngor [2001/89/EC](#) ar fesurau’r Gymuned i reoli clwy clasurol y moch(**28**) fel yr oedd yn cael effaith yn union cyn diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu;

ystyr “the Diseases of Poultry Orders” yw—

- (a) Gorchymyn Clefydau Dofednod (Cymru) 2003(**29**);
- (b) Gorchymyn Ffliw Adar a Ffliw sy’n Deillio o Adar mewn Mamaliaid (Cymru) (Rhif 2) 2006(**30**);
- (c) Rheoliadau Ffliw Adar (Brechu) (Cymru) (Rhif 2) 2006(**31**);

ystyr “the Foot-and-Mouth Disease Orders” yw—

- (a) Gorchymyn Clwy’r Traed a’r Genau (Cymru) 2006(**32**);
- (b) Rheoliadau Clwy’r Traed a’r Genau (Rheoli Brechiadau) (Cymru) 2006(**33**);

ystyr “national reference laboratory” yw labordy sydd wedi ei ddynodi gan yr awdurdod priodol yn unol ag Erthygl 100 o’r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol;

ystyr “official laboratory” yw labordy sydd wedi ei ddynodi gan yr awdurdod cymwys yn unol ag Erthygl 37 o’r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol;

ystyr “Regulation ([EC](#)) No 1760/2000” yw Rheoliad ([EC](#)) Rhif 1760/2000 Senedd Ewrop a’r Cyngor sy’n sefydlu system ar gyfer adnabod a chofrestru anifeiliaid buchol ac o ran labelu cig eidion a chynhyrchion cig eidion(**34**);

ystyr “Regulation ([EC](#)) No 1/2005” yw Rheoliad y Cyngor ([EC](#)) Rhif 1/2005 ar ddiogelu anifeiliaid wrth eu cludo a gweithrediadau cysylltiedig(**35**);

ystyr “Regulation (EU) No 206/2010” yw Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 206/2010 sy’n gosod rhestrau o drydydd gwledydd, tiriogaethau neu rannau ohonynt sydd wedi eu hawdurdodi ar gyfer cyflwyno i’r Undeb Ewropeaidd anifeiliaid penodol a chig ffres penodol a’r gofynion ardystio milfeddygol(**36**);

ystyr “the TARP (ALF) (Wales) (EU Exit) Regulations 2022” yw’r Rheoliadau hyn;

ystyr “third country” yw unrhyw wlad neu diriogaeth y tu allan i Ynysoedd Prydain;

ystyr “WOAH” yw Sefydliad Iechyd Anifeiliaid y Byd(**37**);

ystyr “WOAH reference laboratory” yw labordy sydd wedi ei ddynodi’n swyddogol yn labordy cyfeirio WOAH gan Gynulliad Byd-eang Cynrychiolwyr WOAH(**38**).

(**28**) OJ Rhif L 316, 1.12.2001, t. 5.

(**29**) [O.S. 2003/1079 \(Cy. 148\)](#), a ddiwygiwyd gan [O.S. 2006/1762 \(Cy. 184\)](#), [2010/618 \(Cy. 60\)](#), [2018/1216 \(Cy. 249\)](#) a [2021/480 \(Cy. 147\)](#).

(**30**) [O.S. 2006/2927 \(Cy. 262\)](#), a ddiwygiwyd gan [O.S. 2010/618 \(Cy. 60\)](#), [2012/3039](#), [2018/1216 \(Cy. 249\)](#), [2019/371 \(Cy. 92\)](#) a [463 \(Cy. 111\)](#) a [2022/280 \(Cy. 81\)](#).

(**31**) [O.S. 2006/2932 \(Cy. 265\)](#), a ddiwygiwyd gan [O.S. 2010/619 \(Cy. 61\)](#), [2018/1216 \(Cy. 249\)](#) a [2019/371 \(Cy. 92\)](#).

(**32**) [O.S. 2006/179 \(Cy. 30\)](#), a ddiwygiwyd gan [O.S. 2010/618 \(Cy. 60\)](#), [2011/2377 \(Cy. 250\)](#), [2014/517 \(Cy. 60\)](#), [2018/1216 \(Cy. 249\)](#), [2019/371 \(Cy. 92\)](#) a [463 \(Cy. 111\)](#), a [2020/44 \(Cy. 5\)](#).

(**33**) [O.S. 2006/180 \(Cy. 31\)](#), a ddiwygiwyd gan [O.S. 2010/619 \(Cy. 61\)](#), [2011/1043](#) a [2377 \(Cy. 250\)](#), [2014/517 \(Cy. 60\)](#), [2019/371 \(Cy. 92\)](#) a [2020/44 \(Cy. 5\)](#).

(**34**) EUR 2000/1760, a ddiwygiwyd gan [O.S. 2019/588](#), [814](#) ac [822](#), [2020/1388](#), [1453](#) a [1463](#), ac adran 34(3)(a) a (b) o Ddeddf Amwythiaeth 2020 ([p. 21](#)).

(**35**) EUR 2005/1, a ddiwygiwyd gan [O.S. 2019/588](#), [802](#) a [1312](#), [2020/1481](#) a [1590](#) a [2022/846](#).

(**36**) EUR 2010/206, a ddiwygiwyd gan [O.S. 2019/1225](#), [2020/1462](#), [2021/211](#) a [2022/735](#).

(**37**) Sefydliad rhnglywodraethol yw WOAH, sef yr OIE gynt, a sefydlwyd i wella iechyd anifeiliaid ledled y byd ac ymladd clefydau heintus ar anifeiliaid. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: <https://www.woah.org/en/who-we-are/>.

(**38**) Y Cynulliad Byd-eang yw’r awdurdod ar gyfer WOAH ac mae’n cynnwys 182 o gynrychiolwyr o bob gwlaid sy’n Aelod o WOAH. Mae rhagor o wybodaeth am y Cynulliad Byd-eang ar gael yma: <https://www.woah.org/en/who-we-are/structure/world-assembly/>. Mae rhagor o fanylion am y weithdrefn ar gyfer dynodi’r labordai cyfeirio ar gael yma: <https://www.woah.org/en/what-we-offer/expertise-network/reference-laboratories/#ui-id-2>.

(3) At ddibenion y Rheoliadau hyn, yng Nghyfarwyddebau'r UE a addesir gan y Rhan hon ac yn yr addasiadau a wneir i Gyfarwyddebau'r UE yn y Rhan hon, mae unrhyw gyfeiriad at un o'r Cyfarwyddebau UE hynny, oni nodir yn wahanol, yn gyfeiriad at y Gyfarwyddeb honno fel yr oedd yn cael effaith yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu ac fel y'i haddesir gan y Rhan hon.

### Addasiadau i Gyfarwyddeb 64/432

9.—(1) Mae Cyfarwyddeb 64/432 wedi ei haddasu fel a ganlyn.

(2) Mae Erthygl 1 i'w darllen fel pe bai'r canlynol wedi ei roi yn lle'r Erthygl honno—

“Articles 2, 9, 10 and 14 of, and Annexes A, D and E to, this Directive apply so far as necessary for the purposes of giving effect to provisions which contain references to them in Directives 88/407, 89/556, 90/429, 92/65 and 2009/156, and Regulation (EU) No 206/2010. The provisions of this Directive, to which such reference is made, have effect for those purposes without prejudice to—

- (a) Directive 88/407;
- (b) Directive 90/429;
- (c) Directive 2002/99;
- (d) the Official Controls Regulation;
- (e) Regulation (EC) No 1760/2000;
- (f) Regulation (EC) No 1/2005;
- (g) Regulation (EC) No 1069/2009;
- (h) Regulation (EU) No 652/2014 of the European Parliament and of the Council laying down provisions for the management of expenditure relating to the food chain, animal health and animal welfare, and relating to plant health and plant reproductive material<sup>(39)</sup>;
- (i) the Foot-and-Mouth Disease Orders;
- (j) the Pigs (Records, Identification and Movement) (Wales) Order 2011<sup>(40)</sup>;
- (k) the Diseases of Swine Regulations 2014<sup>(41)</sup>, so far as they relate to the control of swine vesicular disease.”

(3) Mae Erthygl 2 i'w darllen fel pe bai—

- (a) paragraff 1 wedi ei hepgor;
- (b) ym mharagraff 2—

- (i) yn y geiriau o flaen pwynt (a), “In addition” wedi ei hepgor;
- (ii) ym mhwynt (a), yn y diffiniad o “herd”, “article 2 of the Pigs (Records, Identification and Movement) (Wales) Order 2011 as regards swine, and Article 2 of Regulation (EC) No 1760/2000 as regards bovine animals” wedi ei roi yn lle “Article 2(b) of Directive 92/102/EEC”;
- (iii) ym mhwynt (e), yn y diffiniad o “officially tuberculosis-free Member State or region of a Member State”, “country” wedi ei roi yn lle “Member State” ym mhob lle y mae'n digwydd;
- (iv) ym mhwynt (g), yn y diffiniad o “officially brucellosis-free region”, “country” wedi ei roi yn lle “Member State”;

---

(39) EUR 2014/652, a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/1410 a 2020/1388.

(40) O.S. 2011/2830 (Cy. 303), a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/632 (Cy. 118) a 2019/92 (Cy. 24).

(41) O.S. 2014/1894, a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/1410.

- (v) ym mhwynt (h), yn y diffiniad o “officially brucellosis-free Member State”, “country” wedi ei roi yn lle “Member State” yn y ddau le y mae’n digwydd;
  - (vi) ym mhwynt (k), yn y diffiniad o “officially enzootic-bovine-leukosis free Member State or region”, “country” wedi ei roi yn lle “Member State” yn y ddau le y mae’n digwydd;
  - (vii) pwynt (l) wedi ei hepgor;
  - (viii) ym mhwynt (m), yn y diffiniad o “approved veterinarian”, “Article 14” wedi ei roi yn lle “Article 14(3)(B)”;
  - (ix) ym mhwynt (o), yn y diffiniad o “assembly centre”—
    - (aa) “importation into Wales” wedi ei roi yn lle “trade”;
    - (bb) “for the purposes of export by the third country of export” wedi ei roi yn lle “for trading purposes”;
    - (cc) “Part 5 of Annex 1 to Regulation (EU) No 206/2010” wedi ei roi yn lle “Article 11”;
  - (x) ym mhwynt (p), yn y diffiniad o “region”—
    - (aa) “country’s” wedi ei roi yn lle “Member State’s”;
    - (bb) y geiriau o “and includes at least one” hyd at ddiwedd pwynt (p) wedi eu hepgor;
  - (xi) pwynt (q) wedi ei hepgor.
- (4) Mae Erthygl 9 i’w darllen fel pe bai—
- (a) ym mharagraff 1—
    - (i) “The appropriate authority may, by regulations or in accordance with a procedure set out by the appropriate authority by regulations, set out” wedi ei roi yn lle “A Member State which has”;
    - (ii) “Wales” wedi ei roi yn lle “its territory may submit the said programme to the Commission”;
    - (iii) yn yr indent cyntaf, “Wales” wedi ei roi yn lle “the Member State”;
    - (iv) yn y pumed indent, “the results of which must be supplied at least annually to the Commission,” wedi ei hepgor;
  - (b) y canlynol wedi ei roi yn lle paragraff 2—
 

“(2) The appropriate authority may, in accordance with a procedure set out by the appropriate authority by regulations, set out the additional guarantees, general or limited, which may be required for importation into Wales”;
  - (c) paragraff 3 wedi ei hepgor.
- (5) Mae Erthygl 10 i’w darllen fel pe bai—
- (a) ym mharagraff 1, “The matters referred to in paragraph 2 are” wedi ei roi yn lle’r geiriau o “Where a Member State” hyd at “appropriate supporting documentation, setting out in particular”;
  - (b) y canlynol wedi ei roi yn lle paragraff 2—
 

“(2) The appropriate authority may, in accordance with a procedure set out by the appropriate authority by regulations, set out additional guarantees, general or limited, that are required where it considers that Wales or part of Wales is free from one of the diseases listed in Annex E(2), taking into account the matters specified in paragraph 1.”;
  - (c) paragraff 3 wedi ei hepgor.

(6) Mae Erthygl 14 i'w darllen fel pe bai'r canlynol wedi ei roi yn lle'r Erthygl honno—

“**14.** The approved veterinarians must be under the control of the competent authority and must comply with the following requirements. They must—

- (a) meet the conditions for pursuing the veterinary profession;
- (b) have no financial interest or family connections with the owner of or person responsible for the holding;
- (c) possess particular knowledge in the field of animal health as it applies to animals of the species concerned. This means that they must—
  - (i) regularly update their knowledge, especially as regards the relevant health regulations,
  - (ii) meet the requirements laid down by the competent authority to ensure the proper functioning of any surveillance network,
  - (iii) provide the owner of or person responsible for the holding with information and assistance in order that all steps are taken to ensure that the holding's animal health status is maintained, particularly on the basis of programmes agreed with the competent authority,
  - (iv) ensure compliance with the requirements concerning—
    - (aa) the identification and health certification of the animals of the herd, the animals introduced and those imported;
    - (bb) compulsory reporting of infectious animal diseases and any other risk factor for animal health or welfare, and for human health;
    - (cc) establishing as far as possible the cause of death of animals and where they are to be consigned;
    - (dd) the hygiene conditions of the herd and of the livestock production units.

If the proper functioning of any system of surveillance networks so requires, each country may limit the veterinarians' responsibility to a specific number of holdings or to a specific geographical area.

The competent authority must draw up lists of approved veterinarians and of the approved holdings participating in any surveillance network. If the competent authority finds that a participant in the network no longer fulfils the conditions set out above, it must suspend or withdraw approval, without prejudice to any penalties that may be applied.”

(7) Mae Erthygl 16 i'w darllen fel pe bai'r canlynol wedi ei roi yn lle'r Erthygl honno—

“**16.** The appropriate authority may by regulations—

- (a) modify Annex A and Chapter 1 of Annex D, in particular with regard to their adaptation to technological and scientific developments;
- (b) modify Annexes B, C, E and Chapter 2 of Annex D; or
- (c) amend the modifications made to any Annex to this Directive by Part 5 of the TARP (ALF) (Wales) (EU Exit) Regulations 2022.”

(8) Mae Atodiad A i'w ddarllen fel pe bai—

(a) yn Adran 1—

(i) ym mharagraff 1(c), yn yr ail is-baragraff, y geiriau o “; except in a Member State” hyd at ddiwedd yr is-baragraff hwnnw wedi eu hepgor;

(ii) ym mharagraff 2(c)—

- (aa) yn yr ail is-baragraff, “country” wedi ei roi yn lle “Member State” ym mhob lle y mae’n digwydd;
- (bb) yn y trydydd is-baragraff, “country” wedi ei roi yn lle “Member State”;
- (iii) ym mharagraff 3A(d)—
  - (aa) “in a Member State” wedi ei hepgor;
  - (bb) “be traded” wedi ei roi yn lle “enter into intra-Community trade”;
- (iv) ym mharagraff 4, “in relation to the occurrence of bovine tuberculosis in the relevant country, the appropriate authority may, in accordance with a procedure set out by the appropriate authority by regulations, declare a country or part of a country to be officially tuberculosis-free” wedi ei roi yn lle’r geiriau o “in accordance with Article 8,” hyd at “procedure laid down in Article 17”;
- (v) ym mharagraff 4(b), “legislation in force in Wales” wedi ei roi yn lle “Community legislation”;
- (vi) ym mharagraff 5—
  - (aa) “country” wedi ei roi yn lle “Member State” ym mhob lle y mae’n digwydd;
  - (bb) “appropriate authority” wedi ei roi yn lle “Commission”;
  - (cc) “in accordance with a procedure set out by the appropriate authority by regulations” wedi ei roi yn lle “in accordance with the procedure laid down in Article 17”;
- (b) yn Adran 2—
  - (i) ym mharagraff 1(d), “by the appropriate authority, in accordance with a procedure set out by the appropriate authority by regulations” wedi ei roi yn lle “in accordance with the procedure at Article 17”;
  - (ii) ym mharagraff 2(a), yn yr ail is-baragraff, “country” wedi ei roi yn lle “Member State” ym mhob lle y mae’n digwydd;
  - (iii) ym mharagraff 2(b), yn yr is-baragraff cyntaf, “by the appropriate authority, in accordance with a procedure set out by the appropriate authority by regulations” wedi ei roi yn lle “in accordance with the procedure at Article 17”;
  - (iv) ym mharagraff 2(b), yn yr ail is-baragraff—
    - (aa) “countries” wedi ei roi yn lle “Member States” yn y ddau le y mae’n digwydd;
    - (bb) “country” wedi ei roi yn lle “Member State”;
  - (v) ym mharagraff 2(c), yn yr ail is-baragraff, “by the appropriate authority, in accordance with a procedure set out by the appropriate authority by regulations” wedi ei roi yn lle “under the procedure set out in Article 17”;
  - (vi) ym mharagraff 3A, yn y trydydd is-baragraff, ym mhwynt (b), “by the appropriate authority, in accordance with a procedure set out by the appropriate authority by regulations” wedi ei roi yn lle “under the procedure set out in Article 17”;
  - (vii) ym mharagraff 4(i), yn y trydydd indent, “Veterinary Medicines Regulations 2013(42)” wedi ei roi yn lle “procedure laid down in Article 17”;
  - (viii) ym mharagraff 6A, yn yr ail is-baragraff, “by the appropriate authority, in accordance with a procedure set out by the appropriate authority by regulations” wedi ei roi yn lle “under the procedure set out in Article 17”;

- (ix) ym mharagraff 7, yn y geiriau o flaen pwynt (a)—
- (aa) “country” wedi ei roi yn lle “Member State” yn y ddau le y mae’n digwydd;
  - (bb) “by the appropriate authority, in accordance with a procedure set out by the appropriate authority by regulations” wedi ei roi yn lle “according to the procedure laid down in Article 17”;
- (x) ym mharagraff 7(a)—
- (aa) “country” wedi ei roi yn lle “Member State” yn y ddau le cyntaf y mae’n digwydd;
  - (bb) y geiriau o “provided that the central competent authority” hyd at y diwedd wedi eu hepgor;
- (xi) ym mharagraff 7(b), “legislation in force in Wales” wedi ei roi yn lle “Community legislation”;
- (xii) ym mharagraff 8, yn y geiriau o flaen pwynt (a), “country” wedi ei roi yn lle “Member State” yn y ddau le y mae’n digwydd;
- (xiii) ym mharagraff 9—
- (aa) “country” wedi ei roi yn lle “Member State” ym mhob lle y mae’n digwydd;
  - (bb) “appropriate authority” wedi ei roi yn lle “Commission” yn y ddau le y mae’n digwydd;
  - (cc) “in accordance with a procedure set out by the appropriate authority by regulations revoke or suspend the status” wedi ei roi yn lle “according to the procedure laid down in Article 17 propose that the status be suspended or revoked”;
- (xiv) ym mharagraff 10, “by the appropriate authority, in accordance with a procedure set out by the appropriate authority by regulations” wedi ei roi yn lle “under the procedure laid down in Article 17”.
- (9) Mae Atodiad B i’w ddarllen fel pe bai—
- (a) ym mhwyt 1, yn y pedwerydd is-baragraff, “2021 edition(43), Chapter on bovine tuberculosis” wedi ei roi yn lle “Fourth Edition, 2000, Chapter 2.3.3 (bovine tuberculosis)”;
  - (b) ym mhwyt 2.1.4.5, “in the 10th edition, 2022(44),” wedi ei roi yn lle “4<sup>th</sup> Edition 2002”;
  - (c) ym mhwyt 2.2.5.3.4—
    - (i) “legislation in force in Wales” wedi ei roi yn lle “Community legislation”;
    - (ii) “allowed to be traded” wedi ei roi yn lle “entered into intra-Community trade”;
  - (d) ym mhwyt 2.2.5.3.5, “the appropriate authority” wedi ei roi yn lle “Member States”;
  - (e) ym mhwyt 3—
    - (i) “the appropriate authority” wedi ei roi yn lle “Member States”;

---

(43) Mae'r *Manual of Standards for Diagnostic Tests and Vaccines for Terrestrial Animals 2021* ar gael yn rhad ac am ddim ar-lein (<https://www.woah.org/en/what-we-do/standards/codes-and-manuals/#ui-id-2>) neu gellir archebu copi caled ohono o siop lyfrau ar-lein WOAH (ar <https://www.woah.org/en/ebookshop>). Cyfeiriad WOAH yw 12, rue de Prony, 75017 Paris, Ffrainc. Mae copi caled hefyd ar gael i edrych arno ar gais gan yr Adran Feiroleg yn swyddfeydd yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliad a Phlanhigion yn: The Animal and Plant Health Agency, Weybridge, Woodham Lane, New Haw, Addlestone, Surrey, KT15 3NB.

(44) Ceir yn yr *European Pharmacopoeia* set o safonau cyfeirio cyfreithiol rwymol ar gyfer rheoli ansawdd meddyginaethau, a fabwysiadwyd yn unol â'r Confensiwn ar Lunio Cyffurlyfr Ewropeidd. Mae fersiwn ar-lein neu fersiwn wedi ei hargraffu ar gael am dál tanygrifio (gweler y dolenni i'r gwasanaethau tanygrifio ar <https://www.edqm.eu/en/european-pharmacopoeia>).

- (ii) “2021 edition, Chapter on bovine tuberculosis” wedi ei roi yn lle “4th Edition, 2000, Chapter 2.3.3 (bovine tuberculosis)”;
- (f) ym mhwynt 4—
  - (i) yn y teitl, “State” wedi ei hepgor;
  - (ii) ym mhwynt 4.1—
    - (aa) “State” wedi ei hepgor;
    - (bb) “Article 100 of the Official Controls Regulation” wedi ei roi yn lle “Article 6a”;
    - (cc) “respectively in their respective Member States” wedi ei hepgor.
- (10) Mae Atodiad C i’w ddarllen fel pe bai—
  - (a) ym mhwynt 1, yn y pedwerydd is-baragraff, “2021 edition, in the relevant Chapters on brucellosis” wedi ei roi yn lle “Sixth Edition, 2008, Chapter 2.4.3 (bovine brucellosis), Chapter 2.7.2 (caprine and ovine brucellosis) and Chapter 2.8.5 (porcine brucellosis)”;
  - (b) ym mhwynt 2.1.5—
    - (i) “WOAH” wedi ei roi yn lle “Community”;
    - (ii) “Animal and Plant Health Agency, Weybridge laboratory” wedi ei roi yn lle “Veterinary Laboratories Agency (VLA), Weybridge”;
  - (c) ym mhwynt 2.1.6, “in each Member State” wedi ei hepgor;
  - (d) ym mhwynt 2.2.1—
    - (i) “the Chapter on bovine brucellosis” wedi ei roi yn lle “Chapter 1.1.4”;
    - (ii) “2021 edition,” wedi ei roi yn lle “Sixth Edition, 2008”;
  - (e) ym mhwynt 2.2.3.3, “in accordance with Article 6(1)” wedi ei hepgor;
  - (f) ym mhwynt 2.7.1—
    - (i) “in the Chapter on bovine brucellosis” wedi ei roi yn lle “Chapter 2.4.3 (bovine brucellosis)”;
    - (ii) “2021 edition,” wedi ei roi yn lle “Sixth Edition, 2008”;
  - (g) ym mhwynt 3.1.1(a), “importation into Wales” wedi ei roi yn lle “intra-Community trade”;
  - (h) ym mhwynt 3.1.2—
    - (i) “the relevant section of the Chapter on bovine brucellosis” wedi ei roi yn lle “Section C1 of Chapter 2.4.3”;
    - (ii) “2021 edition,” wedi ei roi yn lle “Sixth Edition, 2008”;
  - (i) ym mhwynt 3.2.1, yn y paragraff cyntaf, “importation into Wales” wedi ei roi yn lle “intra-Community trade”;
  - (j) ym mhwynt 3.2.2—
    - (i) “the relevant section of the Chapter on bovine brucellosis” wedi ei roi yn lle “Section B(2) of Chapter 2.4.3”;
    - (ii) “2021 edition,” wedi ei roi yn lle “Sixth Edition, 2008”;
  - (k) ym mhwynt 4.1—
    - (i) yn y geiriau o flaen pwynt (a), “Article 100 of the Official Controls Regulation” wedi ei roi yn lle “Article 6a”;
    - (ii) ym mhwynt (a), “in the Member State” wedi ei hepgor;
    - (iii) ym mhwynt (d), “in the Member State” wedi ei hepgor;

(iv) ym mhwynt (e), “relevant” wedi ei roi yn lle “Community”.

(11) Mae Atodiad D i’w ddarllen fel pe bai—

(a) ym Mhennod 1—

(i) yn y teitl, “Member States and Regions” wedi ei hepgor;

(ii) yn Adran A, ym mhwynt (iii), “country” wedi ei roi yn lle “Member State”;

(iii) yn Adran B, ym mhwynt (iv), “Directive 2004/68” wedi ei roi yn lle “Directive 72/462/EEC”;

(iv) yn Adran E, “On the basis of information supplied in relation to the occurrence of enzootic-bovine-leukosis in the relevant country, the appropriate authority may declare a country, or part of a country, to be officially enzootic-bovine-leukosis-free in accordance with a procedure set out by the appropriate authority by regulations, if—” wedi ei roi yn lle’r geiriau o flaen pwynt (a);

(v) yn Adran E, ym mhwynt (b), “country” wedi ei roi yn lle “Member State” ym mhob lle y mae’n digwydd;

(vi) yn Adran F, yn y geiriau o flaen pwynt (a), “country” wedi ei roi yn lle “Member State” yn y ddaau le y mae’n digwydd;

(vii) yn Adran F, ym mhwynt (a), “country” wedi ei roi yn lle “Member State”;

(viii) yn Adran F, ym mhwynt (b)—

(aa) “country” wedi ei roi yn lle “Member State”;

(bb) “appropriate authority” wedi ei roi yn lle “Commission”;

(ix) yn Adran F, ym mhwynt (d)—

(aa) “country” wedi ei roi yn lle “Member State” yn y ddaau le y mae’n digwydd;

(bb) “by the appropriate authority, in accordance with a procedure set out by the appropriate authority by regulations” wedi ei roi yn lle “in accordance with the procedure laid down in Article 17”;

(x) yn Adran G—

(aa) “country” wedi ei roi yn lle “Member State” ym mhob lle y mae’n digwydd;

(bb) “by the appropriate authority, in accordance with a procedure set out by the appropriate authority by regulations” wedi ei roi yn lle “in accordance with the procedure in Article 17” yn y ddaau le y mae’n digwydd;

(b) ym Mhennod 2—

(i) yn yr ail baragraff, “to be supplied by a WOAH reference laboratory for enzootic-bovine-leukosis” wedi ei roi yn lle’r geiriau o “, which shall be the official EU standard” hyd at ddiweddu paragraff hwnnw;

(ii) yn Adran A, ym mhwynt 2—

(aa) “State” wedi ei hepgor;

(bb) “Article 100 of the Official Controls Regulation” wedi ei roi yn lle “Article 6a”;

(iii) yn Adran A, ym mhwynt 3—

(aa) “State” wedi ei hepgor;

(bb) “Article 100 of the Official Controls Regulation” wedi ei roi yn lle “Article 6a”;

(iv) yn Adran C, ym mhwynt 3(b), “in accordance with Article 6(2)(c)” wedi ei hepgor.

## Addasiadau i Gyfarwyddeb 88/407

- 10.—(1) Mae Cyfarwyddeb 88/407 wedi ei haddasu fel a ganlyn.
- (2) Mae Erthygl 1 i'w darllen fel pe bai—
  - (a) yn y paragraff cyntaf, “intra-Community trade in and” wedi ei hepgor;
  - (b) yn yr ail baragraff, “legislation in force in Wales comprising” wedi ei roi yn lle “Community and/or national”.
- (3) Mae Erthygl 2 i'w darllen fel pe bai—
  - (a) yn y frawddeg gyntaf, “Directive 2004/68” wedi ei roi yn lle “Directive [72/462/EEC](#)”;
  - (b) ym mhwynt (b)—
    - (i) yn yr indent cyntaf, yn y diffiniad o “semen collection centre”, “Member State or” wedi ei hepgor;
    - (ii) yn yr ail indent, yn y diffiniad o “semen storage centre”, “Member State or” wedi ei hepgor;
  - (c) pwynt (c) wedi ei hepgor;
  - (d) ym mhwynt (f), yn y diffiniad o “country of collection”—
    - (i) “Member State or” wedi ei hepgor;
    - (ii) “Wales” wedi ei roi yn lle “a Member State”;
  - (e) ym mhwynt (g), yn y diffiniad o “approved laboratory”, “in Wales or a third country” wedi ei roi yn lle “in the territory of a Member State or third country”.
- (4) Mae Erthygl 8 i'w darllen fel pe bai—
  - (a) ym mharagraff 1—
    - (i) “Semen may only be imported” wedi ei roi yn lle “A Member State may authorize importation of semen only”;
    - (ii) y canlynol wedi ei roi yn lle'r geiriau o “on a list drawn up” hyd at ddiwedd y paragraff hwnnw—  
“on a list set out in legislation in force in Wales.  
The appropriate authority may by regulations draw up lists of third countries from which consignments of semen may be imported into Wales.”;
  - (b) ym mharagraff 2—
    - (i) ym mhwynt (a), “Wales” wedi ei roi yn lle “the Member States”;
    - (ii) ym mhwynt (b), “listed by the WOAH” wedi ei roi yn lle “mentioned in lists A and B of the International Office of Epizootic Diseases”;
  - (c) paragraff 3 wedi ei hepgor.
- (5) Mae Erthygl 9 i'w darllen fel pe bai—
  - (a) ym mharagraff 1—
    - (i) yn y geiriau o flaen pwynt (a), “Consignments of semen may only be imported where they are” wedi ei roi yn lle “Member States shall only authorise imports of semen”;
    - (ii) ym mhwynt (a)(ii), “of Annex A” wedi ei roi yn lle “thereof”;
    - (iii) y canlynol wedi ei fewnosod ar ôl pwynt (a)(ii)—  
“(iii) laid down in Annex B and paragraphs 2 and 3 of Annex C;”;
    - (iv) ym mhwynt (b), “Wales” wedi ei roi yn lle “the Community”;
  - (b) ym mharagraff 2—

- (i) "Wales" wedi ei roi yn lle "the Community";
  - (ii) "by that competent authority" wedi ei fewnosod ar ôl "be communicated";
  - (iii) "appropriate authority" wedi ei roi yn lle "Commission" ym mhob lle y mae'n digwydd;
  - (iv) "make" wedi ei roi yn lle "provide the Member States with";
  - (v) "and shall make them" wedi ei hepgor;
